# JONES, EDWARD (1749 - 1779), cerddor

**Enw:** Edward Jones
**Dyddiad geni:** 1749
**Dyddiad marw:** 1779
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Dolydd-byrion, ger Cricieth, Sir Gaernarfon. Cyfansoddodd lawer o donau ac anthemau a adawodd mewn llawysgrif ar ei ôl. Daeth ei anthem, ' Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi,' yn hynod boblogaidd. Trefnodd William Owen, Tremadog, yr anthem, ac fe'i ceir fel y trefnodd ' Ieuan Gwyllt ' hi yn *Y Cerddor Cymreig*, rhif 107 a 108, a llythyr parthed ei hawduriaeth yn rhifyn Mawrth 1870 o'r *Y Cerddor Cymreig*. Bu farw yn 1779 yn 30 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llandwrog, Arfon.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Y Cerddor Cymreig* (1861-1873), Mawrth 1870

*Y Cerddor*, Mai 1893


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732951


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu